

Ffurflen Cais Mynediad gan Wrthrych

Nodiadau i Ymgeiswyr

1. O dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol yr UE ar Ddiogelu Data, mae gan unigolyn hawl i gael gwybod os yw data personol amdano'n cael eu defnyddio neu eu cadw, gan gynnwys copi o unrhyw wybodaeth o'r fath gydag unrhyw esboniadau angenrheidiol o godau.
2. Rhaid cynnwys gyda'r cais unrhyw wybodaeth / ddogfennau angenrheidiol i adnabod yr ymholwr (cerdyn y Coleg, dogfen gyda thystiolaeth o bwy ydyw) er mwyn dod o hyd i'r cofnod gofynnol.
4. Bydd y Grŵp, fel rheolydd y data, yn cydymffurfio â'r cais am ddatgeliad o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais neu, os yn hwyrach, ar ôl derbyn yr wybodaeth y cyfeirir ati yn (2) uchod. Mae gwahanol reoliadau'n berthnasol mewn perthynas â chanlyniadau arholiadau.
5. Llenwch y ffurflen ganlynol, llofnodi'r datganiad sy'n cyd-fynd ac wedyn ei chyflwyno, gyda thystiolaeth o bwy ydych chi, i Swyddog Diogelu Data'r Grŵp, yn y cyfeiriad sydd wedi'i nodi dros y dudalen:

Eich manylion fel Gwrthrych Data

Enw Llawn (Prif Lythrennau)

.....

Cyfeiriad:

.....

Cod Post:

Rhif Ffôn: E-bost:

(Os nad chi yw gwrthrych y data, ond eich bod yn gwneud cais ar ei ran, llenwch ei fanylion uchod, llofnodi'r datganiad, a llenwi'r ffurflen cais trydydd parti sy'n cyd-fynd).

Statws / Perthynas Gwrthrych y Data â'r Coleg

Er mwyn ein helpu ni i ddilysu pwy ydych chi a dod o hyd i'ch gwybodaeth bersonol, atebwch y cwestiynau canlynol mor llawn â phosib.

(a) MYFYRIWR

- Myfyriwr presennol (nodwch eich blwyddyn astudio)

.....

- Cyn- fyfyrwr (nodwch y dyddiad cofrestru diwethaf)

.....

Manylion cwrs

(b) STAFF

- Aelod presennol o staff
- Cyn-aelod o staff (nodwch y dyddiad y daeth y gyflogaeth i ben)

.....

AdranRhif Cyflogres:

Rhif Yswiriant Gwladol Enw Bedydd

(c) ARALL

Os nad ydych yn fyfyrwr nac yn aelod o staff, pa berthynas ydych chi wedi'i chael gyda'r Coleg a pha bryd?

Eich Cais

Nodwch ddisgrifiad o'r data rydych yn gwneud cais amdanynt, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a fydd yn ein galluogi i ddod o hyd iddynt.

Datganiad

Yr wyf i yn tystio bod yr wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y ffurflen gais hon i Grŵp NPTC yn gywir. Rwyf yn deall y bydd rhaid i mi ddarparu tystiolaeth o bwy ydw i. Rwyf yn deall y bydd rhaid i'r Grŵp gadarnhau pwy ydw i / Gwrthrych y Data ac y bydd yn angenrheidiol efallai i'r Grŵp gael gwybodaeth fanylach er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth gywir. Rwyf yn ymwybodol y gellir cysylltu â chanolwyr a thrydydd partiön mewn achosion lle mae datgelu cyfeiriadau cyfrinachol a gwybodaeth arall a gyflwynir gan drydydd parti yn gyfrinachol yn berthnasol.

Llofnod Dyddiad

Dychwelwch y ffurflen wedi'i llenwi at y Swyddog Diogelu Data, Grŵp Colegau NPTC, Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd SA10 7RF neu ar e-bost i data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk.

Dyma'r dogfennau y mae'n rhaid eu cynnwys gyda'ch cais:

- Tystiolaeth o bwy ydych chi (eich cerdyn Coleg, copi o'ch pasbort, trwydded yrru neu dystysgrif geni);
- Tystiolaeth o bwy yw Gwrthrych y Data (os yw'n wahanol i'r uchod);
- Tystiolaeth o ganiatâd Gwrthrych y Data i ddatgelu i drydydd parti (os oes angen fel y dynodir uchod);

Sylwer bod y Grŵp yn cadw'r hawl i atal neu gyfyngu ar wybodaeth sy'n berthnasol i drydydd partion eraill (o dan delerau Adran 7 Deddf Diogelu Data 1998).

Sylwer: Os ydych chi'n gweithredu ar ran Gwrthrych y Data, rhaid i chi gael ei awdurdod ysgrifenedig, gyda llofnod, i wneud hynny a rhaid i chi gynnwys yr awdurdod hwnnw gyda'ch cais. Llenwch yr adran hon gyda'ch manylion, yn ogystal â'r ffurflen uchod, gan lofnodi'r datganiad a chofio cyflwyno'r cais gyda'r ffi a'r dystiolaeth briodol.

Manylion y Trydydd Parti sy'n gwneud cais am wybodaeth

Enw Llawn (Prif Lythrennau)

.....

Cyfeiriad:

.....

.....Cod Post:

Rhif Ffôn: E-bost:

Rhowch ddisgrifiad o'ch perthynas â Gwrthrych y Data sy'n eich arwain i wneud y cais am wybodaeth hwn ar ei ran.

.....

.....

Manylion Gwrthrych y Data

Enw Llawn (Prif Lythrennau)

.....

Cyfeiriad:

.....

.....Cod Post:

Rhif Ffôn: E-bost:



Ffurflen Cais am CCTV

Llenwch y ffurflen isod gan roi cymaint o fanylion â phosib i helpu i adnabod a dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnir amdani. Mae seren (*) yn dynodi maes gorfodol i'w llenwi a heb wneud hyn ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais. Sylwer y bydd ffi'n berthnasol efallai. Gweler y nodiadau cyfarwyddyd ar ddiwedd y ddogfen hon.

Manylion yr Ymgeisydd (gwrthrych y data)	
Teitl	
* Enw Cyntaf	
* Cyfenw	
* Cyfeiriad post neu e-bost	
Rhif Ffôn	
Sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Bydd Grŵp Colegau NPTC yn trin eich gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Bydd yr wybodaeth y byddwch chi'n ei darparu ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i brosesu eich cais. Ni fydd yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd partïon, bydd yn cael ei chadw'n ddiogel, ni fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben arall ac ni fydd yn cael ei chadw am fwy o amser na sydd angen.	

Manylion y cais
* Defnyddiwch yr adran hon i roi manylion a fydd yn ein helpu ni i ddod o hyd i'r lluniau sydd eu hangen, er enghraifft, dyddiad, amser, lleoliad a disgrifiad o'r wybodaeth neu'r digwyddiad. Po fwyaf penodol yw'r manylion, yr hawsaf fydd dod o hyd i'r data. Sylwer mai dim ond am 30 diwrnod ar ôl eu recordio ydym yn cadw lluniau.

Sylwer: Os ydych chi'n gweithredu ar ran Gwrthrych y Data, rhaid i chi gael ei awdurdod ysgrifenedig, gyda llofnod, i wneud hynny a rhaid i chi gynnwys yr awdurdod hwnnw gyda'ch cais. Llenwch yr adran hon gyda'ch manylion, yn ogystal â'r ffurflen uchod, gan gofio cyflwyno'r cais gyda'r dystiolaeth briodol.

Manylion y Trydydd Parti sy'n gofyn am yr wybodaeth	
*Enw Llawn	
*Cyfeiriad	
Cyfeiriad E-bost	
Rhif Ffôn:	

Rhowch ddisgrifiad o'ch perthynas â Gwrthrych y Data sy'n eich arwain i wneud y cais am wybodaeth hwn ar ei ran.

Sut byddech chi'n hoffi derbyn yr wybodaeth	
Fel rheol darperir lluniau CCTV ar DVD. Nodwch sut byddech yn hoffi derbyn yr wybodaeth y gwneir cais amdani.	
Dod i mewn i gasglu DVD	
Anfon drwy'r post (post wedi'i recordio) i'r cyfeiriad sydd wedi'i nodi uchod	
Arall (nodwch)	

Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi i:

Drwy'r post at:
Swyddog Diogelu Data
Grŵp Colegau NPTC
Heol Dŵr y Felin
Castell-nedd
SA10 7RF

neu

Ar e-bost i:
Data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk

Sut i Wneud Cais am Luniau CCTV

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (DDD) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), mae gan unigolyn (gwrthrych y data) hawl i gael gwybod os oes data personol yn cael eu defnyddio neu eu storio gan Grŵp Colegau NPTC (rheolydd y data) a chael copi o unrhyw wybodaeth o'r fath (Erthygl 15 y GDPR).

Gellir gwneud ceisiadau yn ysgrifenedig, naill ai ar ffurf llythyr neu e-bost, neu ar lafar. Sylwer nad yw llenwi'r ffurflen sydd wedi'i hatodi yn orfodol, ond bydd yn helpu i ddarparu i ni'r data angenrheidiol er mwyn prosesu eich cais. Os byddwch yn gwneud cais ar lafar, rydym yn argymhell eich bod yn dilyn hynny gyda chais ysgrifenedig. Sylwer y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth efallai i gadarnhau pwy ydych chi. Mae'r cyfnod ar gyfer ymateb i'ch cais yn dechrau pan rydym yn derbyn yr wybodaeth ychwanegol.

Sylwer mai dim ond am 30 diwrnod ar ôl eu recordio ydym yn cadw lluniau.

Wrth wneud cais am luniau CCTV, cofiwch gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Eich enw a'ch manylion cyswllt
- Unrhyw wybodaeth y gallwn ei defnyddio i'ch adnabod chi neu i ddweud y gwahaniaeth rhyngoch chi a phobl eraill â'r un enw (e.e. rhif fel aelod o staff, rhif myfyriwr)
- Unrhyw fanylion neu ddyddiadau perthnasol a fydd yn helpu i ddeall beth rydych chi eisiau, gan gynnwys lleoliad ac amser.

Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn 30 diwrnod. Os gofynnir am ragor o wybodaeth gennych chi mewn perthynas â chadarnhau pwy ydych chi, bydd y 30 diwrnod yn dechrau o'r dyddiad pryd byddwn yn derbyn yr wybodaeth ychwanegol. Dylid nodi y gall rhywfaint o ddata fod wedi'u heithrio o gael eu datgelu. Bydd y Grŵp yn rhoi gwybod i chi os bydd unrhyw ddata y gofynnwyd amdanynt wedi'u cadw'n ôl am eu bod yn destun eithriad.

O dan Erthygl 15 y GDPR, nid oes ffi i'w thalu am wneud cais. Fodd bynnag, mae gan y Grŵp ddisgresiwn i benderfynu codi ffi ar unigolyn os oes angen gwneud gwaith technegol ychwanegol neu os yw'r cais yn cael ei ailadrodd neu'n afresymol.

Ceisiadau a wneir ar ran eraill

Gellir gwneud ceisiadau drwy drydydd parti. Mewn achosion o'r fath, rhaid i ni gael ein bodloni bod gan y trydydd parti sy'n gwneud y cais hawl i weithredu ar ran yr unigolyn. Bydd yn ofynnol i'r trydydd parti ddarparu tystiolaeth o'r hawl hon. Gall y dystiolaeth gynnwys awdurdod ysgrifenedig gan wrthrych y data neu atwrneiaeth. Sylwer y bydd angen cadarnhad o bwy ydyw gan wrthrych y data hefyd.

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Grŵp ar e-bost ar data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk neu dros y ffôn ar 01639 648138.

Sut i Wneud Cais Rhyddid Gwybodaeth

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae gennych hawl i wneud cais am unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chofnodi sy'n cael ei chadw gan awdurdod cyhoeddus, fel adran yn y llywodraeth, cyngor lleol neu ysgol y wladwriaeth. Gallwch ofyn am unrhyw wybodaeth sydd gan awdurdod cyhoeddus yn eich barn chi. Dim ond gwybodaeth wedi'i chofnodi mae'r hawl yn berthnasol iddi, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiaduron, mewn negeseuon e-bost ac mewn dogfennau wedi'u hargraffu neu eu hysgrifennu â llaw, yn ogystal â lluniau, fideos a recordiadau sain.

Os mai eich data personol chi eich hun yw'r wybodaeth rydych ei heisiau, dylech wneud cais mynediad gan wrthrych. Mae manylion am sut i wneud cais mynediad gan wrthrych ar gael ar ein gwefan hefyd, o dan y Cynllun Cyhoeddi.

Er mwyn i'ch cais rhyddid gwybodaeth gael sylw, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud y canlynol:

- gwneud y cais yn ysgrifenedig, drwy lythyr neu ar e-bost;
- rhoi eich enw iawn; a
- rhoi cyfeiriad y gallwn anfon ateb iddo, naill ai gyfeiriad post neu e-bost.

Nid oes raid i chi wneud y canlynol:

- dweud pam rydych eisiau'r wybodaeth.

Wrth wneud y cais dylech nodi'r wybodaeth rydych ei heisiau mor glir â phosib. Sylwer ar y canlynol:

- Dim ond ceisiadau ysgrifenedig fydd y Grŵp yn gallu eu derbyn, drwy e-bost neu lythyr.
- Cewch ymateb i'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith.
- Efallai y byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen rhagor o wybodaeth er mwyn delio â'ch cais.
- Efallai na fyddwn yn rhoi gwybodaeth benodol i chi am ei bod wedi'i heithrio, er enghraifft, oherwydd y byddai'n datgelu manylion personol am rywun arall yn annheg, neu oherwydd mai budd masnachol yw pwrpas y cais rhyddid gwybodaeth. Os nad yw'n bosib cydymffurfio â'ch cais, byddwn yn esbonio pam mae wedi cael ei wrthod ac yn rhoi manylion am sut i apelio yn erbyn y penderfyniad.

Isod mae ffurflen y gellir ei llenwi wrth wneud cais rhyddid gwybodaeth. Fodd bynnag, er nad yw defnyddio'r ffurflen sydd wedi'i hatodi'n orfodol, bydd ei defnyddio'n helpu i ddarparu i ni'r data angenrheidiol i broses eich cais.

Anfonwch eich cais ar e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion a nodir isod.

E-bost: FOI@nptcgroup.ac.uk

Drwy'r post i:

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth
Grŵp Colegau NPTC
Heol Dŵr-y-Felin
CASTELL-NEDD
SA10 7RF

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Grŵp ar e-bost ar data-protection-officer@nptcgroup.ac.uk neu dros y ffôn ar 01639 648138.

Ffurflen Cais Rhyddid Gwybodaeth

Nodiadau i Ymgeiswyr

1. O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae gennych hawl i ofyn i Grŵp Colegau NPTC am gopi o unrhyw wybodaeth sydd ganddo. Sylwer bod gwybodaeth benodol wedi'i heithrio o ddatgelu. Os yw'r wybodaeth rydych wedi gwneud cais amdani wedi'i heithrio, cewch wybod am hyn yn ysgrifenedig.
2. Rhaid gwneud y cais yn ysgrifenedig, ar e-bost neu drwy lythyr.
3. Bydd y Grŵp, fel rheolydd y data, yn cydymffurfio â'r cais am ddatgeliad o fewn 20 diwrnod i dderbyn y cais.
4. Llenwch y ffurflen ganlynol a'i chyflwyno i FOI@nptcgroup.ac.uk neu ei phostio at y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth, Grŵp Colegau NPTC, Heol Dŵr-y-Felin, Castell-nedd, SA10 7RF.
5. Ar gyfer rhai ceisiadau, byddwn yn codi ffi. Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib i roi gwybod i chi am hyn ac am swm y ffi.

Enw Llawn *	
Enw Cwmni (os yw'n berthnasol)*	
Cyfeiriad neu e-bost * Sylwer y bydd yr ymateb yn cael ei anfon i'r manylion a ddarperir.	
Rhif ffôn cyswllt	

--	--

* Sylwer na allwn ddarparu unrhyw wybodaeth i chi oni bai eich bod yn rhoi eich enw a chyfeiriad cyswllt neu e-bost i ni.

Eich Cais

Rhowch ddisgrifiad o'r data rydych yn gofyn amdanynt. Os nad yw eich disgrifiad yn glir neu os bydd yn amwys, mae gennym hawl i ofyn i chi am esboniad.

Taflen i barhau.